**Cyngor Cymuned Ganllwyd**

**Chwerfor 12fed 2025**

**Presennol**

Cyng D.Morris, S.Roberts,G.Jones,D.Griffiths.

**Ymddiheuriadau**

Cyng Dixon

**Cofnodion Ionawr 2025**

Cynnigodd Cyng G.Jones fod y cofnodion yn gywir a eiliwyd gan

Cyng D.Morris

**Datgan diddordeb mewn unrhyw fater a drafodir yn ystod y cyfarfod.**

Dim.

**Materion yn codi.**

Gwefan Neuadd y Pentref- mae swyddogion neuadd y pentref wedi edrych i mewn i'r mater yma, bydd y gost tua £30 y mis ddylai'r penderefyniad

cael ei wneud i'w osod yn Ionawr 2025.

Ffordd Gelligemlyn- Nid yw'r cyngor wedi bod i'r ardal i glirio'r dail a.y.y.b

**Caru Coed y Brenin.**

Clywyd y ddadl a gynigiwyd gan Mabon ap Gwynfor A.S ynghylch cau a chyllido'n rhannol rhenti ymwelwyr CNC yng Nghymru, gan gynnwys Coed y Brenin, yng Nghynulliad Cymru ar yr 22ain o Ionawr 2025. Pleidleisiodd y Cynulliad ar gais Plaid Llafur yn erbyn y cynnig i atal cau'r cyfleusterau hyn.

Bydd CCYB yn trafod oblygiadau'r datblygiad hwn yn eu cyfarfod nesaf.

**Cynghorwr Sir.**

Mae'r Parc Cenedlaethol wedi ymuno a Cyngor Gwynedd wrth fabwysiadu polisi tai Erthygl 4.

Hyd yma nid oes diweddariad ynghylch yr ymholiadau a gyflwynwyd gan y cyngor o ran polisïau tai cyfredol.

**Materion ariannol.**

Mae'r clerc wedi cyflwyno cais am ad-daliad TAW i HMRC.

Cyson Banc: Ionawr 2025

| | |
|---|---|
| Yn y Banc ar ddechrau'r Mis: | £3904.30 |
| Derbyniwyd: | |
| Dim | |
| Taliadau: | |
| Cyflog/Paye | £100.00 |
| Treuliau banc | £5.00 |
| | |
| Yn y Banc diwedd mis | £3799.30 |

Mae aelodau'r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg arianol y cyngor.

**Materion Cymunedol.**

Gorchymyn wedi ei dderbyn i'r Tim Tacluso glirio y sbwriel a.y.b sydd wedi ei leoli wrth neuadd y pentref.